Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gwasanaethau digartrefedd – Cyngor Sir y Fflint

Blwyddyn archwilio: 2022-2023

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3981A2023

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir y Fflint fel rhan o waith a gyflawnir/i'w gyflawni yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti o ran yr adroddiad hwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Adroddiad cryno

## Cyd-destun

1 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd statudol ar bob Cyngor yng Nghymru i lunio strategaeth ddigartrefedd, a ddylai gyflawni'r amcanion canlynol:

- atal digartrefedd;
- bod llety addas ar gael, ac y bydd ar gael i bobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref;
- bod cefnogaeth foddhaol ar gael ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref.

2 Yn 2022, cymeradwyodd Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor) ei Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai ei hun, sy'n gosod cyfeiriad strategol o ran atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai ar gyfer 2022-2026

3 Mewn adroddiad cenedlaethol yn 2018, adroddodd yr Archwilydd Cyffredinol fod digartrefedd '... yn fwy na phroblem tai ac mae llawer o'r hyn sy'n achosi digartrefedd y tu hwnt i reolaeth a dylanwad gwasanaethau digartrefedd cyngor.'

4 Un o argymhellion yr adroddiad oedd:

- Rydym yn argymell bod cynghorau'n nodi ac yn cytuno ar yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gan bartneriaid gan nodi sut y byddant yn cydweithio er mwyn lleddfu digartrefedd. Dylai’r cytundeb hwn gael ei adolygu’n rheolaidd, a dylai perfformiad partneriaid gael ei adolygu er mwyn nodi meysydd i'w gwella.'


5 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn wynebu nifer o risgiau allanol a allai gynyddu nifer yr aelwydydd sy'n ceisio cymorth gan y gwasanaeth digartrefedd. O ystyried y ffactorau hyn, mae'n amserol adolygu dull y Cyngor o atal digartrefedd.

6 Gwnaethom gynnal yr adolygiad yn ystod y cyfnod Ebrill 2023 i Hydref 2023.

## Y sefyllfa bresennol


7 Ym mis 5 y flwyddyn ariannol 2023-24, dangosodd data cyllideb a gwariant net ar gyfer Atebion Tai rai o'r pwysau sy'n wynebu'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Er bod y gyllideb wedi codi ers COVID, mae'r gwariant net a ragwelir yn 2023/24 bum gwaith yn uwch na'r lefelau cyn COVID. Y gorwariant a ragwelwyd ar gyfer y gwasanaeth yn 2023/24 bryd hynny oedd £2.9 miliwn.

**Arddangosyn 1: Gwariant Atebion Tai, 2018/2019 i 2023/2024 (rhagolwg)**




8 Mae dadansoddiad o wariant net fesul maes yn dangos bod y cynnydd mewn gwariant net cyffredinol bron yn gyfan gwbl wedi'i achosi gan y cynnydd mewn costau gwely a brecwast a gwestai. Ym mis pump y flwyddyn ariannol 2023-24, rhagwelodd y cyngor wariant o £4.847 miliwn ar lety gwely a brecwast/gwesty yn 2023/24 o'i gymharu â £1.503 miliwn yn 2022/23.

**Arddangosyn 2: Gwariant Atebion Tai fesul maes, 2018/19 i 2023/24 (rhagolwg)**




Mae 'Arall' yn cynnwys y canlynol: safleoedd, cludiant, taliadau trosglwyddo a chyflenwadau a gwasanaethau (ac eithrio costau Gwely a Brecwast/Gwesty)

9 Cwblheir asesiad Adran 62 ar gyfer pob unigolyn neu aelwyd sy'n gwneud cais am fynediad at wasanaethau digartrefedd. Yn 2018/19, roedd 1,102 o geisiadau yn Sir y Fflint. Yn 2021/22 a 2022/23 roedd 671 a 911 yn y drefn honno. Mae cymharu'r data ar draws y cyfnod yma yn anodd oherwydd effaith COVID.

## Yr hyn a ganfuom

10 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: Wrth geisio mynd i'r afael â digartrefedd, a yw'r Cyngor yn addasu ei fwriad strategol i gyflawni dull ataliol cynaliadwy hirdymor?

# Canfuom fod y Cyngor yn cyflawni gwasanaeth o ansawdd uchel, ond mae hyn yn anghynaladwy gyda'i gyllid presennol

### Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'r sefyllfa bresennol ac yn y dyfodol

11 Mae'r Cyngor yn deall y ffactorau sy'n effeithio ar y sefyllfa ddigartrefedd y mae'n ei hwynebu ar hyn o bryd a sut mae'r ffactorau hyn yn newid dros amser. Mae'n defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau mewnol ac allanol, gan gynnwys:

- defnyddio ymchwil a gomisiynwyd i ddeall amgylchiadau aelwydydd sy'n troi at y gwasanaeth;
- adolygiad archwilio mewnol o'r stoc dai bresennol;
- adolygiad o daith y cwsmer drwy'r gwasanaeth i ddeall ei bersbectif a'i brofiad
- rhannu data â phartneriaid allanol, a
- datblygu system rheoli achosion Atebion Tai (cronfa ddata) newydd, a fydd yn darparu gwell gwybodaeth o ran rheoli achosion.

12 Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio ystod o dystiolaeth er mwyn deall y galw yn y dyfodol, sy'n cynnwys:

- mapio effaith cynyddu taliadau rhent ar fforddiadwyedd eiddo i breswylwyr
- effaith ariannol tapro cymorth gan Lywodraeth Cymru i helpu'r Cyngor i gefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid
- gweithio gyda landlordiaid i ddeall gostyngiad posibl mewn stoc wrth i landlordiaid dynnu'n ôl o'r farchnad rentu
- mapio'r stoc bresennol o dai o'i chymharu â'r galw i ddeall pa fathau o eiddo fydd eu hangen i fodloni'r galw yn y dyfodol

13 Mae deall y ffactorau sy'n effeithio ar ddigartrefedd yn Sir y Fflint yn galluogi'r cyngor i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch darparu gwasanaethau a nodi ffactorau a fydd yn effeithio ar y gwasanaeth yn y dyfodol.

14 Ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn ymgysylltu'n rheolaidd â defnyddwyr gwasanaethau i gael eu safbwyntiau ar wasanaethau. Gallai hyn arwain at y Cyngor yn darparu gwasanaethau nad ydynt yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau.

## Mae'r Cyngor yn cydweithio'n dda â phartneriaid ond mae angen gwella ymwybyddiaeth o ofynion gwasanaeth gyda phartneriaid gwleidyddol

15 Mae'r gwasanaeth Digartrefedd yn gweithio'n dda gyda phartneriaid ac wedi cyfleu ei strategaeth a'i amcanion ar draws meysydd gwasanaeth a gydag uwch arweinwyr ac Aelodau.

16 Yn fewnol, cynhaliodd y gwasanaeth weithdai gydag Aelodau a swyddogion i roi cyhoeddusrwydd i'r strategaeth Cymorth Tai bresennol, ac mae'r tîm digartrefedd yn parhau i weithio gyda meysydd gwasanaeth eraill, er enghraifft gweithio gyda gwasanaethau cynllunio a thai i nodi a defnyddio eiddo gwag nad ydynt ar gael ar hyn o bryd i ddiwallu anghenion tai lleol.

17 Mae'r gwasanaeth Digartrefedd yn ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid allanol, gan gynnwys:

- Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint
- Shelter Cymru
- Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig
- Y Wallich; a
- Y Gwasanaeth Prawf

18 Mae'r gwasanaeth digartrefedd wedi meithrin enw da rhagorol gyda phartneriaid allanol am ei fod yn agored ac yn broffesiynol. Dywedodd partneriaid wrthym eu bod yn teimlo bod eu mewnbwn a'u barn broffesiynol yn cael eu gwerthfawrogi a'u gweithredu gan swyddogion. Mae'r cyngor hefyd wedi cynnal gweithdai gyda phartneriaid allanol i nodi materion a rhannu arfer da.

19 Mae'r Cyngor yn defnyddio aelodau staff sydd wedi'u hymgorffori i wella gwaith partneriaeth. Mae swyddog o Shelter Cymru wedi gweithio yn y tîm Digartrefedd ers saith mlynedd ac mae swyddog Digartrefedd y Cyngor bellach yn gweithio yn y Ganolfan Cymorth Cynnar. Mae'r trefniadau hyn wedi arwain at nifer isel o adolygiadau achos a gwell cydweithio a rhannu gwybodaeth â phartneriaid allanol.

20 Mae'r berthynas strategol gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn dda. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i ddeall y materion sy'n wynebu landlordiaid, a dod o hyd i atebion cydweithredol, yn enwedig o ran datblygu llety â chymorth.

21 Mae'r Cyngor yn rhyngweithio ag amrywiaeth o aelodau etholedig, mewnol ac allanol, sy'n herio'r gwasanaeth ac yn cynrychioli etholwyr. Fodd bynnag, mae ymgysylltu â phartneriaid gwleidyddol ynghylch achosion unigol yn defnyddio adnoddau sylweddol o fewn y gwasanaeth digartrefedd.

## Mae'r Cyngor yn adolygu sut mae'n cyflawni ei wasanaeth yn strategol ac yn weithredol

22 Mae'r gwasanaeth Digartrefedd yn wynebu cynnydd yn y galw, gyda'r achosion sy'n cael eu cyflwyno'n dod yn fwy cymhleth ac mae disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau yn uwch nag o'r blaen.

23 Mae'r cynllun i ailstrwythuro'r gwasanaeth digartrefedd yn dangos bod y Cyngor yn deall yr angen i gynyddu capasiti strategol a gweithredol. Mae'r ailstrwythuro hwn yn allweddol a gallai ddarparu

cyfeiriad i'r gwasanaeth a rhoi sicrwydd ynghylch dyfodol y gwasanaeth. Bydd ail-strwythuro'r gwasanaeth yn cael ei ariannu drwy ddefnyddio Cronfa'r Cyngor a'r Grant Cymorth Tai.

24 Nod rhywfaint o weithgaredd y gwasanaeth Digartrefedd yw lleihau'r risg o argyfwng a gwneud arbedion yn y tymor hir. Nod y gweithgaredd hwn, fel gwella diogelwch i alluogi teuluoedd sydd mewn perygl o drais neu gamdriniaeth aros yn eu heiddo presennol, yw osgoi ailgartrefu teuluoedd, lleihau anghyfleuster a'r risg o argyfwng, a lleihau costau i'r gwasanaeth. Nid yw'r Cyngor yn gwerthuso'r prosiectau hyn yn ffurfiol ar hyn o bryd. Heb werthuso prosiectau o'r fath, ni all y Cyngor sicrhau ei hun ynghylch yr effaith na'r gwerth am arian a gyflawnir.

## Mae'r Cyngor yn wynebu penderfyniadau anodd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn y dyfodol

25 Ym mis pump y flwyddyn ariannol 2023-24, y gorwariant a ragwelir ar gyfer gwasanaethau atebion tai yn 2023/24 yw £2.96m. Mae hyn yn dilyn cynnydd yn y gyllideb o £1.275m yn 2022/23 i £2.232m yn 2023/24.

26 Mae incwm i'r gwasanaeth yn uwch nag mewn blynyddoedd cyn COVID ond rhagwelir y bydd yn gostwng yn 2023/24 o'i gymharu â 2022/23 (£6.285m i £5.93m). Mae cyfanswm y gwariant yn parhau i gynyddu ac mae hyn wedi bod yn digwydd bob blwyddyn ers 2019/20. Y ffigur a ragwelir ar gyfer 2023/24 yw £11.078m, cynnydd posibl o bron i £3m o'i gymharu â 2022/23.

27 Rhagwelir y bydd gwariant net yn 2023/24 yn £5.148m. Mae hwn yn gynnydd o ffigur 2022/23 o £1.924m.

28 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ceisio darparu gwasanaeth i ddiwallu'r galw gyda chyllideb nad yw'n cyflawni'r uchelgais hon.

# Argymhellion

29 Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn weithredol ac yn strategol, mae'r Cyngor yn sicrhau bod cyllid ar gael i gynnal ei lefelau gwasanaeth neu i wneud penderfyniadau ar gyflawni gwasanaethau yn seiliedig ar yr arian sydd ar gael.

30 Mae'r Cyngor yn sicrhau bod trefniadau ar gyfer gwerthuso ei weithgareddau digartrefedd yn cael eu cymhwyso i bob gweithgaredd fel y gall roi sicrwydd o'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau ac ar effeithlonrwydd.

31 Er mwyn deall anghenion trigolion yn well, dylai'r Cyngor ehangu ei weithgaredd ymgysylltu â thrigolion i gwmpasu datblygu a gwerthuso'r holl wasanaethau.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.